

Fforwm Cyllideb Ysgolion

Dyddiad	05 / 07 / 2022
Amser	10.30 tan 11.30
Lleoliad	Microsoft Teams
Aelodau	Mark Hatch (MH) - Dinas Brân, Helen Vernon (HV) - Bodnant, Colette Owen (CO) – Esgobaeth, Neil Foley (NF) – Ysgol Uwchradd Prestatyn, Nicola Griffiths (NG) – Pendref, Rona Jones (RJ) – Emmanuel, Rhona O’Neill (RO) – Tir Morfa, Geraint Davies (GD) – Pennaeth Addysg, Daniel Wilde – Pennaeth Dros Dro Ysgol Uwchradd Dinbych (AW), Dafydd Davies (DD) - Ysgol Twm o’r Nant, Claire Armistead (CA) - Ysgol Uwchradd y Rhyl, Shannon Gage (SG)– Is-gadeirydd, Amanda Preston (AP) – Crist y Gair, Lindsey Davenport (LD) – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, Leah Crimes (LC)- Santes Ffraid, Cyng. Gill German (GG) – Aelod Arweiniol Addysg
Rhai nad ydynt yn aelodau	Craig Joyce (CAJ) - Rheolwr Cyllid Ysgolion, Cathy Howatson (CH) (Nodiadau), Mari Gaskell, Chris Speed (CS) – Rheolwr Sicrwydd Ariannol, Catrin Williams - Rheolwr Busnes y Clwstwr Cymraeg (CW) (Arsylwr), Kevin Mowbray (KM) - Cynrychiolydd y Rheolwyr Busnes a Chyllid.
Ymddiheuriadau	Geraint Parry – Brynhyfryd (Cadeirydd), Teleri Llwyd – Borthyn, Gwyn Tudur - Glan Clwyd

1. Croeso

1. Croesawodd Shannon Gage (Is-gadeirydd) y grŵp. Croesawodd CAJ y Cynghorydd Gill German i'r cyfarfod fel yr Aelod Arweiniol newydd dros Addysg.

Roedd 16 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.

2. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Mae Geraint Parry wedi penderfynu peidio â sefyll fel Cadeirydd y fforwm ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf. Hefyd, roedd Shannon Gage, Is-gadeirydd, yn fodlon bod aelod arall o'r grŵp yn derbyn yr awenau fel Is-gadeirydd.

Fforwm Cyllideb Ysgolion

Etholwyd Clair Armistead - Pennaeth - Ysgol Uwchradd y Rhyl fel Cadeirydd.

Etholwyd Lindsay Davenport - Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd fel Is-gadeirydd.

Dymuna'r grŵp ddiolch i Geraint Parry a Shannon Gage am eu cyfraniad i'r grŵp.

3. Materion sy'n codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf 03/05/2022

Nid oedd unrhyw faterion yn codi. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod diwethaf y fforwm.

4. Swyddog Cwynion

GD i fynychu'r cyfarfod i drafod y cynnig i recriwtio Swyddog Cwynion ar ran yr ysgolion. Roedd y ddogfen wedi'i rhannu gyda'r grŵp cyn y cyfarfod.

Holodd SG pam fyddai'r swyddog yn cael ei leoli o dan gwynion corfforaethol ac nid Addysg? Byddai'r rheolaeth atebol o dan gwynion gydag Addysg yn talu 20% o'r costau.

Roedd LD yn teimlo bod hyn yn syniad da.

Holodd MH a ddylid newid y niferoedd ar gyfer y dyraniad yn unol â'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth eraill fel y DPO.

Cytunodd RJ y dylai'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth fod yn seiliedig ar yr un maint o ran niferoedd disgyblion ar gyfer CLGau yn y dyfodol.

Edrychodd CAJ ar yr ysgolion fyddai'n cael eu heffeithio gyda'r newidiadau o 90 i 100 o ddisgyblion. Byddai tair ysgol yn cael eu heffeithio gyda chynnydd bychan o ran costau i eraill.

Cytunwyd gan y fforwm.

6. Cyllid Pontio

Roedd Mari Gaskell yn bresennol a rhannwyd y ddogfen gyda'r grŵp cyn y cyfarfod. Mae mwy o eglurhad yn y canllawiau ar fapio darpariaeth a ffurfioli gweithdrefn bresennol.

Cytunwyd gan y fforwm.

Fforwm Cyllideb Ysgolion

7. Costau TGCh

O'r cyfarfod blaenorol roedd adroddiad wedi'i gyflwyno i'r grŵp strategol TGCh gyda newidiadau o ran modelu i adlewyrchu faint ddylai ysgol fach dalu tuag at gostau TGCh canolog. Cytunwyd y dylid dyrannu costau llai ar gyfer ysgol lai gyda llai na 100 disgybl.

Cytunwyd gan y fforwm.

8. Cylch Gorchwyl

Mewn cyfarfod blaenorol roedd Pennaeth Uwchradd wedi gofyn am gael adolygu Cylch Gorchwyl y Fforwm. Rhannwyd y ddogfen cyn y cyfarfod.

Teimlir bod y ddogfen yn cael ei diweddarau gyda'r aelodau a bydd yn eitem sefydlog ar y rhaglen unwaith y flwyddyn i'w hadolygu.

Awgrymodd SG y bydd unrhyw aelodau newydd i'r fforwm yn derbyn y Cylch Gorchwyl er gwybodaeth.

Awgrymodd LD y dylid newid (cyfarfodydd y fforwm) i adlewyrchu y byddant ar-lein yn y dyfodol yn hytrach nag yn Rhuthun.

Cytunwyd gan y fforwm.

9. Materion yn codi o'r clystyrau

Dim

10. Unrhyw Fater Arall

TGCh - Mae CAJ wedi derbyn cadarnhad y bydd cyfrif yn cael ei gynnal yn ganolog a'i fonitro ganddo a Cathy Howatson er mwyn i ysgolion roi cyllid o'r neilltu ar gyfer dadl bresennol Gaia, neu offer newydd o ran grant Technoleg Addysg.

Cynaliadwyedd TGCh - holodd NG a fydd y gronfa'n cael ei monitro a'i thracio? Bydd technoleg yn wahanol eto mewn 5-7 mlynedd.

Holodd CA a allai ysgolion sydd ag arian sylweddol dros ben helpu'r rhai mewn dyled i waredu eu dyled?

Cytunodd GD gyda CA mewn egwyddor ond gan ystyried yr holl ffactorau dylanwadol mae'n hynod annhebygol.

Mae NF yn awr mewn sefyllfa lle bo arian dros ben oherwydd y grantiau a dderbyniwyd a niferoedd uchel o ddisgyblion PYD ac yn cytuno â CA mewn egwyddor ond mae angen y cyllid ar gyfer cynlluniau hirdymor ar gyfer ysgolion.

Fforwm Cyllideb Ysgolion

LC - mae'r Santes Ffraid yn un o'r ysgolion sydd mewn dyled ar hyn o bryd, nodwyd eu bod yn ddiolchgar iawn o'r awgrym gan CA a'i fod wedi'i drafod yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40am

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Hydref 2022 ar Microsoft Teams.